***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 974 (Cy. 44 )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Pencoed (Diddymu) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *27 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") wedi cael cynnig gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, wedi'i wneud yn unol ag adran 51 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf"), i ddiddymu'r gorfforaeth addysg bellach a adwaenir fel Coleg Pencoed(**2**) ("y Trosglwyddwr") o dan adran 27 o'r Ddeddf;

Drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifenydd Gwladol gan adran 27 o'r Ddeddf ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), mae'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi ymgynghori â'r Trosglwyddwr, a chyda chydsyniad y gorfforaeth addysg bellach a adwaenir fel Coleg Technoleg Pen-y-bont ar Ogwr(**4**) ("y Trosglwyddai") yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Pencoed (Diddymu) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

**2.** Ar 1 Ebrill 2000 diddymir y Trosglwyddwr a throsglwyddir ei holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i'r Trosglwyddai, sydd yn gorfforaeth gorfforedig a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysg.

**3.** Bydd adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogid gan y Trosglwyddwr yn union cyn 1 Ebrill 2000 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno —

(a) at berson y mae'r adran honno'n gymwys iddo yn gyfeiriad at berson a gyflogid felly;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriad at 1 Ebrill 2000;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriad at y Trosglwyddwr; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriad at y Trosglwyddai.

(**1**) 1992 p.13. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 51 i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**2**) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S.1992/2097).
(**3**) Gweler O.S.1999/672.
(**4**) Sefydlwyd gan O.S. 1992/2097 hefyd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*T Middlehurst*
Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, y Cynulliad

27 Mawrth 2000

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Pencoed. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Technoleg Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n sicrhau hawliau ei gweithwyr trwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.